

Trafodwch sut mae 'dull sy'n seiliedig ar hawliau plant' yn rhan annatod o gyd-destyn addysg yng Nghymru drwy ddeddfwriaeth a pholisi

Cyflwyniad

Mae hawliau plant o fewn addysg yng Nghymru wedi datblygu'n raddol dros y degawd diwethaf, gan ganolbwyntio ar fframwaith sy'n seiliedig ar hawliau dynol plant. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, mae gweithio'n agos gyda Chwricwlwm i Gymru a'r Ddeddf Asesu (Cymru) 2021 yn hollbwysig (Children's Commissioner for Wales, 2025). Cymru oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), sef confensiwn sy'n diogelu ac yn hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc (Cuthbert, 2014). Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu nifer o gynlluniau gweithredu i amddiffyn plant sy'n wynebu hiliaeth, y rhai sy'n rhan o'r gymuned LGBTQ+, a phlant ag anableddau (Llywodraeth Cymru, 2025). Yn y traethawd hwn byddaf yn trafod sut mae dull sy'n seiliedig ar hawliau yn rhan annatod o addysg yng Nghymru, a sut mae deddfwriaeth a pholisi yn ei integreiddio i brofiadau addysgol plant.

Er bod hawliau'n berthnasol i bob unigolyn, yn y darn hwn byddaf yn canolbwyntio ar hawliau'r rheini o dan 18 oed. Mae'r hawliau hyn yn hanfodol i ddatblygiad corfforol, gwybyddol ac emosiynol plant, gan eu galluogi i dyfu, dysgu a ffynnu. Er bod llawer o hawliau plant yn debyg i hawliau oedolion, mae addasiadau penodol wedi'u gwneud i adlewyrchu eu hanghenion datblygiadol unigryw (UNICEF, 2024). Mae hyn yn cynnwys yr angen i'w hamddiffyn rhag niwed, sicrhau eu diogelwch, a chreu amgylchedd lle gallant ddatblygu'n llawn.

Er mwyn sicrhau newid gwirioneddol o fewn ysgolion — newid sy'n trawsnewid naws, diwylliant ac ethos, mae dull sy'n seiliedig ar hawliau yn dibynnu ar bedwar egwyddor graidd: dim gwahaniaethu, buddiannau gorau'r plentyn, yr hawl i fyw a datblygu, a llais a barn y plentyn (UNICEF, 2019). Mae'r egwyddorion hyn yn sail i'r ffordd y mae ysgolion yng Nghymru yn cynllunio profiadau dysgu ac yn datblygu polisiâu sy'n sicrhau bod hawliau plant yn cael eu parchu a'u gwireddu. Mae'r pedwar egwyddor hyn hefyd yn sail i lawer o'r polisiâu addysg cenedlaethol, gan ddangos sut mae hawliau plant wedi dod yn rhan annatod o'r system addysg gyfan.

Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

Mae'r Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn rhoi sylw dyledus i'r CCUHP wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant (Senedd Cymru, 2024). Cyflwynwyd y Mesur oherwydd pryderon cynyddol fod plant yn aml yn cael eu hystyried fel grŵp heb lais gwleidyddol. O ganlyniad, cydnabu'r Llywodraeth yr angen i gryfhau amddiffyniad hawliau plant a symud tuag at ymagwedd sy'n seiliedig ar hawliau (Williams, 2026). Ers ei gyflwyno, mae'r Mesur wedi dylanwadu ar sawl sector, gan gynnwys

addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd. O fewn addysg, mae lles plant a phobl ifanc yn cael ei ystyried yn hanfodol, ac mae'r Mesur wedi pwysleisio'r angen am hyfforddiant staff ar hawliau plant. Mae hyn yn cyd-fynd ag Erthygl 12 o'r CCUHP, sy'n mynnu bod plant yn cael cyfle gwirioneddol i gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau addysgol, cynllunio darpariaethau, a chreu polisiau ysgol.

Mae'r Mesur hefyd yn atgyfnerthu'r egwyddor o ddim gwahaniaethu, sy'n arbennig o bwysig wrth ystyried cynnydd yn nifer y dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae adroddiadau'n dangos cynnydd o 7% yn y flwyddyn nesaf (Children's Commissioner for Wales, 2024). Mae'r Cod ADY (2021) yn sicrhau bod safbwyntiau'r dysgwyr hyn, a'u rhieni, yn cael eu hystyried (Morgan, 2023). Mae hyn yn dangos sut mae hawliau plant yn cael eu gwreiddio mewn polisiau sy'n ymwneud â chynhwysiant ac addysg gyfartal. Mae'r Mesur hefyd wedi arwain at newid diwylliannol ehangach, lle mae hawliau plant yn cael eu hystyried nid fel rhywbeth ychwanegol, ond fel rhywbeth sy'n sail i bob penderfyniad sy'n ymwneud â phlant.

Cwricwlwm i Gymru

Mae'r Cwricwlwm newydd wedi'i gyflwyno i hyrwyddo hyblygrwydd, cynhwysiant ac addysg sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Mae'n galluogi athrawon i addasu cynnwys a dulliau addysgu i weddu i anghenion eu dysgwyr. Mae'r pedwar diben — dysgwyr uchelgeisiol a galluog, cyfranwyr mentrus a chreadigol, dinasyddion moesegol a gwybodus, ac unigolion iach a hyderus — yn adlewyrchu egwyddorion hawliau plant (Llywodraeth Cymru, 2020). Mae'r Cwricwlwm yn gwneud yn statudol i bob darparwr addysg ddilyn a hyrwyddo'r CCUHP. Dyma'r tro cyntaf i hawliau plant gael eu hymgorffori mewn cwricwlwm cenedlaethol yn y DU. Mae hyn yn golygu nad yw un wers ar hawliau yn ddigon. Mae hawliau'n cael eu hintegreiddio drwy gydol y diwrnod ysgol ac ym mhob agwedd o fywyd ysgol.

Datblygwyd y Cwricwlwm yn dilyn adroddiad Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015), a nododd nad oedd y cwricwlwm blaenorol yn addas ar gyfer anghenion dysgwyr modern. Mae'r meysydd dysgu newydd yn cynnig cyfleoedd ehangach i integreiddio hawliau plant, cynhwysiant a datblygiad cyfannol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i blant ddysgu am eu hawliau mewn cyd-destunau ystyrion, megis lles, perthnasoedd, a dinasyddiaeth. Mae'r Cwricwlwm hefyd yn annog ysgolion i greu amgylcheddau dysgu sy'n hyrwyddo parch, cydraddoldeb a chyfranogiad, gan adlewyrchu egwyddorion craidd y CCUHP.

Effaith CCUHP ar Ysgolion

Mae'r CCUHP wedi cael effaith sylweddol ar ymarfer ysgolion yng Nghymru, gan newid nid yn unig polisiau ond hefyd y ffordd mae ysgolion yn gweithredu o ddydd i ddydd. Mae llawer o ysgolion bellach yn mabwysiadu Rhaglen Ysgolion sy'n Seiliedig ar Hawliau (RRS) gan UNICEF, sy'n darparu fframwaith clir ar gyfer gwreiddio hawliau plant yn y diwylliant ysgol.

Mae ymchwil yn dangos bod ysgolion sy'n dilyn y rhaglen hon yn profi gwelliannau amlwg mewn ymddygiad, perthnasoedd a lles disgyblion, gan gynnwys cynnydd mewn parch, cydweithrediad a theimlad o berthyn. Mae'r dull hwn yn mynd ymhell y tu hwnt i addysgu plant am eu hawliau, mae'n ymwneud â chreu amgylchedd lle mae hawliau'n cael eu byw yn ymarferol. Er enghraifft, mae ysgolion RRS yn aml yn gweld gostyngiad mewn achosion o fwlio, cynnydd mewn cyfranogiad disgyblion mewn penderfyniadau, a gwell perthynas rhwng staff a disgyblion. Mae hyn yn dangos bod hawliau plant yn cael effaith uniongyrchol ar ddiwylliant ysgol, nid dim ond ar bolisi.

Llais y Plentyn mewn Ymarfer

Mae Erthygl 12 o'r CCUHP yn pwysleisio hawl plant i fynegi barn ar faterion sy'n effeithio arnynt. O fewn ysgolion yng Nghymru, mae hyn yn cael ei weithredu mewn sawl ffordd: cynghorau ysgol, grwpiau ffocws, cynllunio dysgu gyda chyfranogiad disgyblion, a systemau asesu lle mae disgyblion yn gosod targedau personol. Mae Estyn (2024) yn nodi bod ysgolion sy'n rhoi lle canolog i lais y plentyn yn gweld gwelliant mewn cymhelliant, presenoldeb ac ymddygiad. Mae hyn oherwydd bod plant yn teimlo'n fwy gwerthfawr ac yn fwy cysylltiedig â'u haddysg pan fo eu barn yn cael ei chlywed a'i hystyried. Mae llais y plentyn hefyd yn cyfrannu at ddatblygu sgiliau fel meddwl beirniadol, datrys problemau a chyfrifoldeb personol.

Hawliau Plant a Chydraddoldeb

Mae hawliau plant yn gysylltiedig yn agos â materion cydraddoldeb. Mae plant sy'n wynebu tlodi, hiliaeth neu anabledd yn fwy tebygol o brofi rhwystrau i'w hawliau addysgol (Llywodraeth Cymru, 2025). Mae hyn yn cynnwys llai o fynediad at adnoddau, mwy o risg o fwlio, llai o gyfranogiad mewn gweithgareddau, a mwy o angen am gymorth lles. Mae polisïau Cymru yn ceisio mynd i'r afael â hyn drwy hyrwyddo cynhwysiant, ond mae anghydraddoldebau strwythurol yn parhau. Mae hyn yn dangos bod angen buddsoddiad parhaus a hyfforddiant systematig i sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad cyfartal at ei hawliau. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd o amddifadedd, lle mae plant yn aml yn wynebu rhwystrau ychwanegol.

Adnoddau a Chyllid

Er bod Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a Chwricwlwm i Gymru wedi cryfhau hawliau plant yn sylweddol, mae'r gallu i weithredu'r egwyddorion hyn yn dibynnu ar adnoddau digonol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae ysgolion yng Nghymru wedi profi pwysau ariannol cynyddol, gyda rhai yn gorfod lleihau niferoedd staff a thorri darpariaethau hanfodol (Evans, 2026). Mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar hawliau plant: pan nad oes digon o staff, mae llwyth gwaith yn cynyddu ac mae llai o amser ar gael i gefnogi anghenion

unigol disgyblion. Mae diffyg cyllid hefyd yn effeithio ar fynediad at wasanaethau lles, megis cymorth iechyd meddwl, gwasanaethau cwnsela a darpariaethau diogelu. Mae'r rhain yn wasanaethau y mae plant yn cael hawl iddynt o dan y CCUHP, ac felly mae unrhyw doriadau'n tanseilio'r gallu i ddiogelu eu lles a'u datblygiad. Yn ogystal, mae hyfforddiant staff ar hawliau plant — sy'n hanfodol i weithredu'r Mesur (2011) a'r Cwricwlwm — yn aml yn cael ei ystyried yn "foethusrwydd" pan fo cyllid yn brin (Ashley, 2025). O ganlyniad, gall staff fod yn ansicr ynghylch pa hawliau sydd gan blant a sut i'w hymgorffori yn ymarferol.

Mae hyn yn creu risg sylweddol: gall hawliau ddod yn rhywbeth sy'n cael ei ddangos yn hytrach na'i fyw, gan effeithio'n anghymesur ar y disgyblion mwyaf bregus. Pan nad oes adnoddau digonol, mae'r bwlch rhwng polisi a realiti'n ehangu, gan danseilio egwyddorion craidd y Mesur a'r Cwricwlwm.

Rhwystrau Diwylliannol a Strwythurol

Mae newid diwylliannol yn her sylweddol wrth weithredu dulliau sy'n seiliedig ar hawliau. Yn draddodiadol, mae addysg wedi'i seilio ar fodel hierarchaidd lle mae'r athro'n arwain ac yn gwneud y penderfyniadau, tra bod disgyblion yn dilyn cyfarwyddiadau. Mae'r model hwn yn adlewyrchu'r syniad bod "yr athro yn gwybod orau". Er bod hyn yn newid yn raddol, mae olion y diwylliant hwn yn dal i fodoli. Mae dulliau modern o addysgu — megis ardaloedd dysgu hyblyg a gweithgareddau sy'n caniatáu i blant wneud dewisiadau — yn adlewyrchu egwyddorion hawliau, ond nid yw hyn yn golygu bod plant yn cael gwneud popeth maent ei eisiau. Yn hytrach, mae'n golygu bod eu llais yn cael ei ystyried o fewn fframwaith sy'n parchu eu diogelwch a'u lles (Sharma, 2025). Mae camddealltwriaeth gyffredin yn codi pan fo rhai'n tybio bod hawliau plant yn golygu rhyddid llwyr, ond mae'r CCUHP yn glir: mae hawliau'n dod gyda chyfrifoldebau ac o fewn terfynau rhesymol.

Yn ogystal, mae pwysau sefydliadol — megis targedau academiaidd, data perfformiad ac ymweliadau arolygu — yn gallu arwain at flaenoriaethu canlyniadau academiaidd dros iechyd a lles. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn dangos nad yw cynnydd academiaidd yn gynaliadwy heb sylfaen gadarn o les emosiynol a chorfforol (Public Health England, 2014). Mae hyn yn dangos yr angen am newid diwylliannol parhaus, ynghyd â hyfforddiant systematig i staff ar sut i integreiddio hawliau plant yn eu harferion bob dydd.

Monitro a Gwerthuso

Mae systemau monitro'n hanfodol i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu gweithredu'n gyson. Mae Estyn yn chwarae rôl allweddol drwy asesu sut mae ysgolion yn hyrwyddo hawliau plant ac yn creu diwylliant sy'n seiliedig ar hawliau (Estyn, 2024). Fodd bynnag, mae heriau'n codi: gan fod ysgolion yn gwybod pryd mae Estyn yn ymweld, gall hyn arwain at ddelwedd sy'n llai cyson â realiti bob dydd. Yn ogystal, mae Children's Rights Impact Assessments (CRIAs) yn arf pwysig ar lefel genedlaethol. Mae Cymru'n cael ei chydabod fel

arweinydd yn y DU o ran defnyddio CRIAs, gan adlewyrchu'r ymrwymiad i "sylw dyledus" o dan y Mesur (2011). Serch hynny, mae ysgolion yn wynebu'r dasg anodd o gydbwysu monitro cynnydd dysgwyr, diogelu, a gweithredu hawliau — yn aml heb ddigon o amser na staff (NAHT Cymru, 2025). Mae hyn yn effeithio'n arbennig ar blant bregus, gan fod monitro anghyson yn golygu nad yw eu hanghenion yn cael eu hadnabod nac yn cael eu hateb yn brydlon. Felly, mae angen systemau mwy cadarn a chyson i sicrhau bod hawliau'n cael eu gwreiddio'n ymarferol, nid dim ond ar bapur.

Adeiladu Capasiti

Mae adeiladu capasiti yn elfen hanfodol o weithredu dulliau sy'n seiliedig ar hawliau plant. Mae llawer o athrawon yn teimlo nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth neu hyfforddiant ar sut i integreiddio hawliau plant yn eu haddysgu bob dydd. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod hyfforddiant ar hawliau plant yn amrywio'n sylweddol rhwng darparwyr addysg gychwynnol ac o fewn datblygiad proffesiynol parhaus. O ganlyniad, mae rhai athrawon yn dechrau eu gyrfa heb ddealltwriaeth glir o'r CCUHP, ei egwyddorion, neu sut i'w gweithredu'n ymarferol yn y dosbarth. Mae diffyg cysondeb yn arwain at weithredu anwastad o fewn ysgolion, lle mae rhai lleoliadau'n rhagori mewn dulliau sy'n seiliedig ar hawliau tra bod eraill yn ei chael yn anodd.

Mae arweinwyr ysgolion hefyd o dan bwysau sylweddol, gan reoli gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, diwygio ADY, diogelu, presenoldeb a gofynion perfformiad. Mae ychwanegu dulliau hawliau-ganolog at y rhestr hon yn gallu bod yn heriol heb gefnogaeth strwythurol ddigonol. Yn aml, mae diffyg amser, adnoddau ac arbenigedd yn golygu nad yw athrawon yn teimlo'n hyderus yn eu gallu i weithredu hawliau plant yn gyson drwy'r diwrnod ysgol. Gall hyn arwain at sefyllfa lle mae hawliau'n cael eu hyrwyddo ar bapur ond nid yn cael eu gwreiddio'n llawn yn ymarfer bob dydd.

Er mwyn adeiladu cymunedau ysgol sy'n diogelu ac yn hyrwyddo hawliau plant, mae angen cydweithio agos rhwng ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Pan nad yw'r gefnogaeth hon ar gael, gall diwylliant sy'n seiliedig ar hawliau ddod yn dameidiog, gan arwain at brofiadau anghyson i blant mewn gwahanol ysgolion. Yn ogystal, os nad yw athrawon yn hyderus yn defnyddio llais y plentyn, mae llai o gyfle i blant ddylanwadu ar eu haddysg, polisiau ysgol a'u profiadau bob dydd — a gall hyn arwain at ddadrithiad, diffyg cymhelliant neu hyd yn oed ymddieithrio oddi wrth yr ysgol.

Mae adeiladu capasiti felly yn gonglfaen i sicrhau bod dull sy'n seiliedig ar hawliau yn cael ei weithredu'n effeithiol ac yn gynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys darparu hyfforddiant parhaus, creu cyfleoedd i athrawon rannu arfer da, a sicrhau bod arweinwyr ysgolion yn cael yr adnoddau a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i wreiddio hawliau plant yn ethos yr ysgol. Dim ond pan fo'r system gyfan — o athrawon unigol i arweinwyr strategol — yn gweithio

gyda'i gilydd y gellir sicrhau bod hawliau plant yn cael eu gwireddu'n llawn o fewn addysg yng Nghymru.

Hawliau Plant a Lles

Mae hawliau plant yn gysylltiedig yn uniongyrchol â lles corfforol, emosiynol a chymdeithasol. Mae plant sy'n teimlo'n ddiogel, yn cael eu parchu ac yn cael eu clywed yn fwy tebygol o wneud cynnydd academiaidd, dangos gwydnwch ac ymddygiad cadarnhaol (UNICEF, 2024). Mae hyn yn ategu'r ddadl bod hawliau plant nid yn unig yn fater moesegol neu gyfreithiol, ond yn sail i addysg effeithiol.

Mae ysgolion sy'n gweithredu dull sy'n seiliedig ar hawliau yn aml yn gweld gwelliannau mewn lles disgyblion, gan gynnwys lefelau uwch o hunan-barch, perthnasoedd cryfach rhwng staff a disgyblion, a gostyngiad mewn ymddygiad heriol (Evans, 2017). Mae'r cysylltiad rhwng hawliau a lles yn arbennig o bwysig i blant bregus, megis y rhai ag ADY, plant sy'n profi trawma neu'r rhai sy'n byw mewn tlodi (Llywodraeth Cymru, 2022). Pan fo hawliau'n cael eu gwreiddio'n llawn mewn diwylliant ysgol, mae plant yn teimlo'n fwy diogel ac yn fwy cefnogedig, gan greu amodau sy'n galluogi dysgu effeithiol.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd lles fel sail i ddysgu (Llywodraeth Cymru, 2020). Mae'r pedwar diben yn annog ysgolion i feithrin unigolion iach, hyderus sy'n gallu rheoli eu lles eu hunain. Mae hyn yn cyd-fynd â'r CCUHP, sy'n mynnu bod plant yn cael yr hawl i fyw a datblygu, ac i dderbyn y cymorth sydd ei angen arnynt i gyrraedd eu potensial. Felly, mae lles a hawliau yn cydbblethu'n naturiol, gan greu sylfaen gadarn ar gyfer addysg gynhwysol ac effeithiol.

Casgliad

Gallwn weld erbyn hyn fod nifer o ffactorau'n chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel ac yn cael eu parchu o fewn addysg yng Nghymru. Mae'r Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (2011) yn sicrhau mai'r plentyn yw'r brif ffocws mewn pob penderfyniad polisi, gan osod hawliau wrth wraidd llywodraethu a chynllunio strategol. Yn yr un modd, mae Cwricwlwm i Gymru wedi'i gynllunio i gynnal safon uchel o addysg ac i sicrhau bod pob plentyn yn cael profiadau dysgu sy'n adlewyrchu eu hanghenion, eu llais a'u datblygiad cyfannol.

Mae hawliau plant, a'r erthyglau sy'n sail iddynt, yn hollbwysig i sicrhau bod pob plentyn yn cael ei glywed ac yn cael cyfleoedd i dyfu'n unigolion hyderus a galluog. O fewn addysg, mae hawliau'n chwarae rôl arbennig o bwysig: mae'n hanfodol bod plant yn adnabod ac yn deall eu hawliau fel eu bod yn gallu eu defnyddio trwy gydol eu bywydau ac yn cael eu grymuso i wneud penderfyniadau gwybodus. Gan fod dull sy'n seiliedig ar hawliau bellach yn ofyniad

statudol yn hytrach nag opsiwn, mae'n rhan annatod o ddiwylliant addysg yng Nghymru, ac mae penderfyniadau ysgolion yn gynyddol yn cael eu gwneud o amgylch hawliau'r dysgwyr.

Mae'n bwysig hefyd bod ysgolion yn cael eu hasesu ar sut maent yn integreiddio hawliau plant yn eu diwylliant ac yn eu harferion. Gall ymwelwyr fel Estyn chwarae rôl werthfawr drwy gynnig adborth ac awgrymiadau ar sut i gryfhau dulliau sy'n seiliedig ar hawliau o fewn ysgolion. Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn gynharach, mae dal sawl bwlch sy'n effeithio ar weithrediad llawn y dull hwn. Mae diffyg adnoddau, diffyg hyfforddiant cyson, pwysau sefydliadol ar ysgolion, ac anghydraddoldebau sy'n effeithio ar blant bregus, megis dysgwyr ag ADY, plant ag anableddau neu'r rhai sy'n profi hiliaeth.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, mae'n bosibl rhoi camau ymarferol ar waith, megis darparu mwy o hyfforddiant i addysgwyr ar hawliau plant, datblygu dulliau cost-effeithiol o sicrhau adnoddau, a chryfhau systemau monitro fel bod pob ysgol yn cael ei hasesu'n deg ac yn gyson. Mae hyn yn sicrhau bod pob plentyn, waeth beth fo'i gefndir, yn cael ei glywed a'i gefnogi.

Yn y pen draw, wrth i bob unigolyn a phob sefydliad weithio gyda'i gilydd i gryfhau dull sy'n seiliedig ar hawliau, bydd pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn gallu derbyn y gofal, yr addysg a'r gefnogaeth orau bosibl. Mae hyn yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer eu dyfodol ac yn sicrhau eu bod yn tyfu i fod yn ddinasyddion hyderus, iach a gwybodus.

Rhestr Cyfeirnod

Ashley, D. (2025). *Staff shortages blighting children's education, warns UNISON* - UNISON National. [online] UNISON National. Available at:
<https://www.unison.org.uk/news/2025/11/staff-shortages-blighting-childrens-education-warns-unison/>.

Audit Wales. (2026). *Additional Learning Needs support: a system under strain* | Audit Wales. [online] Available at: <https://www.audit.wales/news/additional-learning-needs-support-system-under-strain>.

Children's Commissioner for Wales. (2024). *ALN Policy Position - Children's Commissioner for Wales*. [online] Available at: <https://www.childcomwales.org.uk/our-work/policy-positions/aln-policy-position/>.

Children's Commissioner for Wales (2024). *Human Rights in the Curriculum for Wales 2022*. [online] Children's Commissioner for Wales. Available at: <https://www.childcomwales.org.uk/human-rights-in-the-curriculum-for-wales-2022/>.

Children's Commissioner for Wales (2025). *A Children's Rights Approach to Education in Wales*. [online] Children's Commissioner for Wales. Available at: <https://www.childcomwales.org.uk/resources/the-right-way-a-childrens-rights-approach/a-childrens-rights-approach-to-education-in-wales/>.

Cuthbert, J. (2014). *Written Statement - Review of the role and functions of the Children's Commissioner for Wales (14 February 2014)* | GOV.WALES. [online] GOV.WALES. Available at: <https://www.gov.wales/written-statement-review-role-and-functions-childrens-commissioner-wales> [Accessed 17 May 2026].

Donaldson, G. (2015). *Crynodeb o adroddiad yr Athro*. [online] Available at: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus-crynodeb-o-adroddiad-yr-athro-graham-donaldson.pdf>.

Estyn (2024). *About Estyn - Estyn*. [online] Estyn. Available at: <https://estyn.gov.wales/about-us/>.

Estyn. (2026). *Local Authority support for Schools to manage their budgets - Estyn*. [online] Available at: <https://estyn.gov.wales/improvement-resources/local-authority-support-for-schools-to-manage-their-budgets/> [Accessed 19 May 2026].

Evans, C. (2017). Children's rights 'key' to better school behaviour. *BBC News*. [online] 18 May. Available at: <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-39947971>.

Evans, P. (2026). *Welsh schools face funding crisis, call for urgent Plaid Cymru action*.

[online] Tenby Observer. Available at: <https://www.tenby-today.co.uk/news/education/welsh-schools-face-funding-crisis-call-for-urgent-plaid-cymru-action-906642> [Accessed 19 May 2026].

GOV.WALES. (2025). *Strategic Equality and Human Rights Plan 2025 to 2029 [HTML]* |

GOV.WALES. [online] Available at: <https://www.gov.wales/strategic-equality-and-human-rights-plan-2025-2029-html>.

Llywodraeth Cymru (2020). *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru*. [online] Available at:

<https://hwb.gov.wales/api/storage/b0e91f7c-0050-47b6-9b23-0273d39df9f3/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.pdf>.

Morgan, J. (2023). *Rights of children and young persons: compliance report (October 2020*

to March 2023) [HTML] | GOV.WALES. [online] www.gov.wales. Available at: <https://www.gov.wales/rights-children-and-young-persons-compliance-report-october-2020-march-2023-html>.

NAHT Cymru . (2025). *Inspection and accountability*. [online] Available at:

<https://www.naht.org.uk/InspectionandAccountability>.

Public Health England (2014). *The link between pupil health and wellbeing and attainment A briefing for head teachers, governors and staff in education settings*. [online] Available at:

https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a7ede2ded915d74e33f2eba/HT_briefing_layoutvFINALvii.pdf.

Senedd Cymru (2024). *Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011*. [online]

senedd.wales. Available at: <https://senedd.wales/archive/third-assembly-2007-2011/legislation-third-assembly/rights-of-children-and-young-persons-wales-measure-2011/>.

sharma, jhalak (2025). *Traditional Schooling: Definition, Structure, Benefits & Challenges*.

[online] 21K School India. Available at: <https://www.21kschool.com/in/blog/traditional-schooling/>.

UNICEF (2016). *What is the Rights Respecting Schools Award? - Unicef UK*. [online] Rights Respecting Schools Award. Available at: <https://www.unicef.org.uk/rights-respecting-schools/the-rrsa/about-the-rrsa/>.

UNICEF (2019). *Four principles of the Convention on the Rights of the Child*. [online] Unicef.org. Available at: <https://www.unicef.org/armenia/en/stories/four-principles-convention-rights-child>.

UNICEF (2024). *Child Rights and Why They Matter*. [online] UNICEF. Available at: <https://www.unicef.org/child-rights-convention/child-rights-why-they-matter>.

Welsh Government (2020). *Health and Well-being: Introduction - Hwb*. [online] hwb.gov.wales. Available at: <https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/health-and-well-being>.

Welsh Government (2022). *A guide for parents about rights under the additional learning needs (ALN) system [HTML]*. [online] GOV.WALES. Available at: <https://www.gov.wales/guide-parents-about-rights-under-additional-learning-needs-aln-system-html>.

Williams , J. (2026). *The United Nations Convention on the Rights of the Child in Wales*. [online] Google Books. Available at: https://books.google.co.uk/books?hl=en&lr=&id=tFeuBwAAQBAJ&oi=fnd&pg=PA49&dq=human+rights+for+children+and+young+people+measure+2011&ots=XeFYkl_Vz-&sig=YD_tfZrU0NaAGgKcD1jB4lN9wd8#v=onepage&q=human%20rights%20for%20children%20and%20young%20people%20measure%202011&f=false [Accessed 18 May 2026].